

TYNNU'R DAMP

gan Dylan Iorwerth

Mae 'na ddwy linell syfrdanol mewn un garol Gymraeg, er na chlywir neb yn eu canu nhw.

Mae'r garol ei hun yn adnabyddus iawn – *Ar Gyfer Heddiw'r Bore* – ond o'r deuddeg pennill gwreiddiol, dim ond tri neu bedwar y byddwn ni'n eu canu.

Tua'r canol y mae'r ddwy linell fawr yn dod, a'r awdur, Dafydd Hughes (Eos Iâl), eisoes wedi sôn fel yr oedd Iesu Grist wedi tynnu coron mab Duw er mwyn gwisgo'r "goron ddreiniog", a hynny "er ein mwyn".

"Er ein mwyn" hefyd y "gorweddodd yn y beddrod" – y gyntaf o'r llinellau rhyfeddol. Ac mi orweddodd yn y bedd "i dynnu'r damp o'i waelod" – a dyna'r ail.

I ni heddiw, efallai nad ydi'r darlun o dynnu'r damp o wely yn golygu llawer. Ond i bobl yng nghyfnod yr Eos yn hanner cynta'r hen, hen ganrif, roedd gwely tamp yn syniad dychrynlyd a marwol.

O ganlyniad, meddyliwch am rym y syniad fod Iesu Grist wedi gorwedd yn y bedd, fel gorwedd mewn gwely, i dynnu'r drwg ohono fo, fel nad oes rhaid i ni arswydo rhag marwolaeth. Mae'r pennill yn enghraifft o'r ffordd yr yden ni'n dweud stori'r Nadolig a Iesu Grist ei hun mewn ffordd sy'n siwtio'n hoes ni, yn union fel y gwnaeth Mathew a Luc yn eu tro – ac mae'n cynnig dimensiwn gwahanol i'r hen garol.

Roedd hi'n ffefryn erioed, yn enwedig wrth i leisiau hiraethus Parti Bronheulog ei chanu hi.

O'r sôn am Bosra a Seina, i'r "Alpha a'r Omega" a'r "eira gwyn yn Salmon", mae hi'n rhoi teimlad o'i chyfnod ac o'i phobl. Pobl oedd yn fwy cyfarwydd a'r Beibl na hanes eu gwlad eu hunain. Pobl oedd yn teimlo i'r byw stori'r geni a'r croesoheilio...a'u marwoldeb hwy eu hunain.

Mi fyddai rhai o fy nheulu i wedi bod yn eu plith nhw.

Yng Nghynwyd, cartre cyndeidiau fy mam yr oedd Eos Iâl yn byw am ran o'i oes, ac un o fy nheulu i oedd yr ola, mae'n debyg, i fyw yn ei hen gartre'; bwthyn o'r enw Llety'r Siswrn.

Hyd y gwn i, does dim tystiolaeth un ffordd na'r llall mai yn fan'no yr ysgrifennodd ei garol, ond mi alla i ei ddychmygu'n ei chyfansoddi wrth gerdded ar hyd lan afon Dyfrdwy neu i lawr at hen Eglwys Llangar, sydd bellach yng nghofal Cadw oherwydd y darluniau canoloesol ar ei muriau.

Ymhlith y lluniau hynny, mae yna sgerbwd yn cario gwaywffon yn un llaw, mesurydd amser yn y llall, a chaib a rhaw wrth ei draed.

Er y byddai'r llun o'r golwg dan haenau o wyngalch Protestanaidd yn nyddiau Eos Iâl, fel dwy linell fawr y garol, mae'n dangos bod marwolaeth yn beth byw iawn i'r hen Gymry.

Y GAROL WREIDDIOL YN EI CHYFANRWYDD

Ar gyfer heddiw'r bore'n
Faban Bach
Y ganwyd gwreiddyn Jesse'n
Faban bach
Y Cadarn ddaeth o Bosra
Y deddfwr gynt ar Seina
Yr Iawn gaed ar Galfaria'n
Faban bach
Yn sugno bron Maria'n
Faban bach.

Caed bywiol ddwfr Eseciel
Ar lin Mair
A gwir Feseia Daniel
Ar lin Mair
Caed bachgen doeth Eseia
`R addewid roed i Adda
Yr Alpha a'r Omega
Ar lin Mair
Mewn côr ym Methle'm Juda
Ar lin Mair.

Gorffwyswch bellach, Lefiad,
Cafwyd Iawn,
Nid rhaid wrth anifeiliaid,
Cafwyd Iawn,
Diflannu wnaeth y cysgod,
Mae'r Sylwedd wedi dyfod,
Ni raid wrth wŷyn a buchod
Cafwyd Iawn,
Na theirw na thurturod,
Cafwyd Iawn.

Ystyriwn gariad Trindod
O'u gwir fodd
Yn trefnu ffordd y cymod
O'u gwir fodd
Y Tad yn ethol meichie
Y Mab yn fodlon diodde',
A'r Ysbryd Glân a'i ddonie'
O'u gwir fodd,
Yn tywys Seion adre
O'u gwir fodd.

Diosgodd Crist ei goron
O'i wir fodd
Er mwyn coroni Seion
O'i wir fodd
I blygu'i ben dihalog
O dan y goron ddreiniog
I ddioddef dirmyg llidiog
O'i wir fodd
Er codi pen yr euog
O'i wir fodd.

O cofiwn Gethsemane
lle bu Ef
Yn chwysu'r gwaed yn ddagrau
lle bu Ef,
Ac am y fflangell greulon
Yn arddu cefn y Cyfion
Ar hyd heolydd Seion,
lle bu Ef
A'i gnawd yn gwysi hirion
Lle bu Ef.

Hawdd olrhain ei gerddediad
Hyd y llys,
Gan lwybr coch orlifiad
Hyd y llys
Lle cafodd Iesu cyfion
Ei watwar gan elynion,
A tharo'i wyneb tirion
Yn y llys
Er dirmyg ar ei berson
Yn y llys.

O'r llys at orsedd Peilat
Er ein mwyn
Taenellwyd gwaed y Cymod
Er ein mwyn.
I ddioddef dwyfol loesion
Ar ben y groes rhwng lladron,
Y bicell fain a'r hoelion
Er ein mwyn
A cholli gwaed ei galon
Er ein mwyn.

O dacw'r Oen mewn dalfa
Er ein mwyn,
Yn esgyn pen Calfaria
Er ein mwyn,
I ddioddef dwyfol loesion
Ar bren y groes rhwng lladron,
Y bicell fain a'r hoelion
Er ein mwyn
A cholli gwaed ei galon
Er ein mwyn.

Gorweddodd yn y beddrod
Er ein mwyn
I dynnu'r damp o'i waelod
Er ein mwyn,
Yn awr mae ar ei orsedd
Yn cynnig rhad drugaredd,
Maddeuant a thangnefedd
Er ein mwyn
I'r adyn mwyaf ffiaidd
Er ein mwyn.

Cyfiawnder a fodlonwyd,
Waith ei Iawn,
A'r ddeddf a anrhydeddwyd
waith ei Iawn;
Mae uffern fawr yn crynu,
A'r durtur bêr yn canu,
A Duw a dyn yn gwenu
Waith yr Iawn
Mewn hedd ym mherson Iesu
Waith ei Iawn.

Am hyn bechadur brysia
Fel yr wyt
I mofyn am y noddfa
Fel yr wyt
I ti'r agorwyd ffynnon
A ylch dy glwyfau duon
Fel eira gwyn yn Salmon
Fel yr wyt
Am hynny tyrd yn brydlon
Fel yr wyt.